

**BIS** | Department for Business  
Innovation & Skills

**CYNLLUN IAITH GYMRAEG BIS**

YMRWMIAD BIS I  
DDEDDF YR IAITH GYMRAEG

2009

## CYNNWYS

### Adran

### Tudalen

#### Cyflwyniad

#### Cefndir y corff

#### Cwmpas y Cynllun

#### Cynllunio a gwireddu gwasanaethau

- Polisiau, deddfwriaeth a mentrau
- Gwireddu gwasanaethau
- Ein swyddogaethau rheoleiddio – a gwasanaethau trydydd parti
- Safonau ansawdd
- Dyfarnu grantiau a benthyciadau

#### Delio â'r cyhoedd Cymraeg

- Gohebiaeth
- Llythyrau penderfyniad
- Cyfathrebu dros y teleffon
- Cyfarfodydd cyhoeddus
- Cyfarfodydd eraill â'r cyhoedd
- Ymwneud arall â'r cyhoedd yng Nghymru

#### Ein hwyneb cyhoeddus

- Ymgyrchoedd cyhoeddusrwydd, arddangosfeydd a hysbysebu
- Cyhoeddiadau
- Gwefannau
- Ffurflenni a deunydd eglurhaol cysylltiedig
- Hunaniaeth gorfforaethol
- Hysbysiadau swyddogol, hysbysiadau cyhoeddus a hysbysiadau recriwtio staff
- Hysbysiadau i'r Wasg a chysylltiadau â'r cyfryngau

#### Gweithredu'r Cynllun

- Staffio
- Recriwtio
- Hyfforddiant iaith
- Hyfforddiant galwedigaethol
- Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu
- Gweithio mewn partneriaeth
- Trefniadau mewnol
- Monitro
- Adolygu'r Cynllun
- Cwynion ac awgrymiadau

## **Cyflwyniad**

O dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993, mae'n rhaid i bob corff cyhoeddus sy'n cynnig gwasanaethau i'r cyhoedd yng Nghymru ddarparu cynllun yn gosod sut y bydd yn cynnig y gwasanaethau hynny yn Gymraeg.

Bu i Fwrdd yr Iaith Gymraeg gymeradwyo Adran Busnes, Arloesi a Sgiliau cychwynnol BIS (a elwid yr Adran Masnach a Diwydiant ar y pryd) yn Awst 2000. Dyma adolygiad cynta'r cynllun hwnnw ac mae'n disgrifio sut y bydd BIS yn gweithredu'r egwyddor, mor bell ag y bo honno'n briodol o dan yr amgylchiadau ac yn rhesymol ymarferol, a sefydlwyd gan Ddeddf yr Iaith Gymraeg y dylai'r Gymraeg a'r Saesneg gael eu trin yn gyfartal wrth gynnal busnes cyhoeddus a gweinyddu cyfiawnder yng Nghymru. Mae'r cynllun yn cwmpasu'r gwasanaethau a gynigiwn i'r cyhoedd yng Nghymru.

Yn y cynllun hwn, ystyr y term "cyhoedd" yw unigolion. Mae'n cynnwys y cyhoedd yn ei grynswth, neu ran o'r cyhoedd sy'n gweithredu'n breifat. Nid yw, fodd bynnag, yn cynnwys pobl sy'n gweithredu wrth gynrychioli'r Goron, y Llywodraeth neu'r Wladwriaeth. O ganlyniad, nid yw pobl sy'n cyflawni swyddogaethau o natur gyhoeddus, er eu bod yn bersonau cyfreithiol, yn dod o dan ystyr y gair *cyhoeddus* wrth gyflawni'r swyddogaethau swyddogol hynny.

Paratowyd y cynllun hwn o dan Adran 21 o'r Ddeddf - ac yn unol â'r canllawiau a gyhoeddodd Bwrdd yr Iaith Gymraeg o dan Adran 9 o'r Ddeddf. Daeth i rym ar 28 Mai 2009 ac mae'n disodli'r cynllun gwreiddiol a gymeradwywyd gan y Bwrdd ar 30 Awst 2000.



Mae gwybodaeth bellach am gwmpas a diben cynlluniau iaith Gymraeg i'w chael yng nghanllawiau Bwrdd yr Iaith Gymraeg yn: [www.byig-wlb.org.uk](http://www.byig-wlb.org.uk)

## **Cefndir y corff**

Rôl BIS yw helpu i sicrhau llwyddiant busnes mewn byd mwyfwy cystadleuol drwy hybu creadigaeth a thwf busnes ac economi fenter gref drwy bob rhanbarth; sicrhau bod pob adran ac asiantaeth o dan y Llywodraeth yn gwireddu rheoleiddio gwell i'r sectorau preifat, cyhoeddus a'r trydydd sector; gwireddu marchnadoedd rhydd a theg, gyda mwy o gystadleuaeth, i fusnesau, defnyddwyr a gweithwyr, gan sicrhau bod y Llywodraeth yn gweithredu'n gyfranddeiliad effeithiol a deallus.

Mae BIS yn sicrhau canolbwyntio newydd gan y Llywodraeth ganolog ar yr heriau pwysig hyn. Mae'n sicrhau bod yna adran o fewn y Llywodraeth sydd chwarae rhan ddofn ac effeithiol gyda'r gymuned fusnes, a chanddi'r gallu i hybu'r agenda cynhyrchedd a chystadleuaeth ar draws meysydd polisi tyngedfennol ac i wireddu rhaglen radical o ddiwygio rheoleiddiol i'r sectorau busnes, cyhoeddus a'r trydydd sector.

## **Cwmpas y Cynllun**

Mae Cynllun BIS yn gymwys i holl swyddogaethau pencadlys BIS ac mae'r adran yn ymrwymo i gydweithredu'n agos â Chynulliad Cenedlaethol Cymru ar faterion yn ymwneud â Deddf yr Iaith Gymraeg. Mae Concordat wedi ei gytuno i gadarnhau'r ffiniau rhwng swyddogaethau BIS a rhai Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Bydd cyfrifoldebau'r ddau gorff gyda golwg ar ddarpariaeth Gymraeg yn parhau'r ffiniau hyn. Lle bo gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru neu ei bartneriaid gyfrifoldeb am ddatblygiadau yng Nghymru, bydd BIS yn sicrhau y caiff digon o amser ei ganiatáu i'w gwneud yn bosib darparu'r dimensiwn Gymraeg angenrheidiol.

Tra bo'r Asiantaethau Gweithredol yn gweithio o fewn canllawiau polisi cyffredinol wedi eu gosod gan Weinidogion, mater i Brif Weithredydd pob Asiantaeth yw gweithgareddau beunyddiol, gan gynnwys gweithredu mesurau Deddf yr Iaith Gymraeg. Lle nad oes gan Asiantaethau BIS eu Cynlluniau Iaith Gymraeg eu hunain, bydd BIS yn trefnu i'w Gynllun ef fod ar gael i'r Asiantaethau hynny ac yn eu hannog i gwrdd ag anghenion y cyhoedd Cymraeg yng Nghymru yn unol ag egwyddorion Deddf yr Iaith Gymraeg.

Lle bo hynny'n briodol, bydd BIS yn defnyddio'i ddylanwad i hybu ymwybyddiaeth o anghenion siaradwyr Cymraeg yng Nghymru a byddwn yn annog Cyrff Cyhoeddus Anadrannol perthnasol i fabwysiadu egwyddorion y Ddeddf.

## **Cynllunio a gwireddu gwasanaethau**

### **Polisiâu, deddfwriaeth a mentrau**

Bydd ein polisiâu, ein mentrau a'n gwasanaethau yn gyson â'r cynllun hwn. Byddant yn cefnogi defnyddio'r Gymraeg ac yn helpu'r cyhoedd yng Nghymru i arfer yr iaith fel rhan o'u bywyd beunyddiol lle bynnag y bo hynny'n briodol.

Wrth gyfrannu at ddatblygiad neu wireddiad polisiâu, mentrau, gwasanaethau neu ddeddfwriaeth newydd wedi'n harwain gan gyrff eraill, fe wnawn hynny mewn ffordd sy'n gyson â'r cynllun hwn. Byddwn hefyd yn sicrhau, lle bynnag y bo hynny'n briodol, y bydd deddfwriaeth gynradd ac eilaidd a gaiff ei noddi gan yr Adran yn cefnogi defnyddio'r Gymraeg.

### **Gwireddu gwasanaethau**

Byddwn yn sicrhau bod ein gwasanaethau ar gael yn Gymraeg lle bo hynny'n briodol – ac fe rown wybod i'r cyhoedd pa bryd y maent gael. Bydd hyn yn galluogi siaradwyr Cymraeg i gyrchu'n gwasanaethau.

## **Ein swyddogaethau rheoleiddio – a gwasanaethau yr ymgwymerir â nhw ar ein rhan gan eraill**

Bydd unrhyw gytundebau neu drefniadau a wnawn ag eraill yn gyson â rhannau perthnasol y cynllun hwn lle mae'r cytundebau a'r trefniadau hynny'n ymwneud â darparu gwasanaethau ar gyfer y cyhoedd yng Nghymru. Bydd hyn yn cynnwys gwasanaethau a gaiff eu contractio allan, dyfarnu trwyddedau a rhoi mathau eraill o ganiatâd.

### **Safonau Ansawdd**

Bydd y gwasanaethau a gynigir o ansawdd yr un mor uchel yn Gymraeg ac yn Saesneg a chânt eu cynnig o fewn yr un amser. Nodir yr ymrwymiad hwn yn gyhoeddus yn adroddiad yr Adran, ar wefan Cyhoeddiadau BIS ac mewn deunydd ysgrifenedig arall fel sy'n briodol. Nodir yr ymrwymiad hefyd ar wefan BIS. Mae modd chwilio gwefan Adroddiadau a Chyhoeddiadau BIS ac fe gynhwysir cyfarwyddyd ynghylch sut i uniaethu dogfennau Cymraeg yn adran Cwestiynau Mynych y safle yn Gymraeg.

### **Dyfarnu grantiau a benthyciadau**

Wrth ddyfarnu grantiau a benthyciadau ar gyfer gweithgareddau sy'n effeithio ar y cyhoedd Cymreig, byddwn yn cynnwys amodau gyda golwg ar ddefnyddio'r Gymraeg lle bo hynny'n briodol. Wrth wneud felly, fe gadwn mewn cof ganllawiau Bwrdd yr Iaith Gymraeg ar ddyfarnu grantiau a chanllawiau.

## **Delio â'r cyhoedd Cymraeg**

### **Gohebiaeth**

Ein harfer gyffredin fydd:

Wrth i rywun ysgrifennu atom yn Gymraeg, byddwn yn rhoi ateb Cymraeg (os oes angen ateb). Bydd ein hamser targed ar gyfer ateb yr un fath ag ar gyfer ateb llythyrau Saesneg, sef 15 diwrnod i ohebiaeth Weinidogol a 20 diwrnod gwaith i gais o dan y drefn Rhyddid Gwybodaeth.

Os oes rhaid cyhoeddi'r fersiynau Cymraeg a Saesneg o unrhyw ohebiaeth ar wahân, ein harfer gyffredin fydd sicrhau bod y ddau fersiwn ar gael yr un pryd. Sicrhawn hefyd y bydd eitemau a gaiff eu hamgáu gyda llythyrau dwyieithog yn ddwyieithog eu hunain lle bônt ar gael.

Bydd yr uchod yn gymwys i ohebiaeth e-bost yn ogystal â gohebiaeth ar bapur.

Bydd ein Huned Gohebiaeth Weinidogol ac Ymholiadau yn datblygu system ar gyfer cofnodi ffafriaeth iaith y rhai sydd am ohebu â ni yn Gymraeg

### **Llythyrau penderfyniad**

Os bwriedir i lythyr penderfyniad gyfleu polisi i gynulleidfa lawer ehangach na'r rhai sydd â rhan uniongyrchol yn yr ymholiad, neu drefn statudol arall, fe ystyriwn a ddylid ei drin fel cyhoeddiad o dan y cynllun hwn.

### **Cyfathrebu dros y teleffon**

Ni fyddai'n ymarferol inni gynnal sgysiau teleffon yn Gymraeg oherwydd ein lleoliad. Fodd bynnag, wrth sefydlu llinellau cymorth ffôn, neu gyfleusterau tebyg, i gynnig gwybodaeth, gwasanaethau neu gefnogaeth i'r cyhoedd yng Nghymru, fe ystyriwn ddarparu gwasanaeth Cymraeg. Caiff hwn ei hysbysebu ochr yn ochr â'r gwasanaeth Saesneg. Bydd y ddau wasanaeth yn rhannu'r un rhif ffôn.

### **Cyfarfodydd cyhoeddus**

Bydd BIS yn sicrhau bod aelodau'r cyhoedd sy'n bresennol mewn cyfarfodydd cyhoeddus, h.y. gwrandawiadau ffurfiol, ymchwiliadau, achosion cyfreithiol a digwyddiadau swyddogol tebyg, yn cael cyfrannu yn Gymraeg a bod croeso iddynt wneud. Bydd gwahoddiadau a hysbysiadau sy'n rhoi cyhoeddusrwydd i ddiwyddiad yng Nghymru yn ddwyieithog a byddant fel arfer yn gwahodd y rhai sydd am siarad yn Gymraeg i roi gwybod am hynny i drefnydd y digwyddiad ymlaen law fel y gellir trefnu cyfleusterau cyfieithu-ar-y-pryd.

Ein harfer gyffredin fydd darparu papurau a gwybodaeth arall ar gyfer y cyfarfodydd cyhoeddus hyn yn Gymraeg a Saesneg – ac i adroddiadau neu bapurau a gynhyrchir yn sgil cyfarfodydd cyhoeddus gael eu cyhoeddi yn Gymraeg a Saesneg, yn unol â'r ymrwymïadau cyhoeddi o dan y cynllun hwn.

### **Cyfarfodydd eraill â'r cyhoedd**

Oherwydd ein lleoliad, ni fyddai'n ymarferol inni gynnal cyfarfodydd wyneb yn wyneb â'r cyhoedd drwy gyfrwng y Gymraeg.

### **Ymwneud arall â'r cyhoedd yng Nghymru**

Wrth inni gynnal arolygon cyhoeddus yng Nghymru, ein harfer gyffredin fydd sicrhau bod pob agwedd ar gyfathrebiadau â'r cyhoedd yn ddwyieithog. Lle bynnag y bo hynny'n ymarferol, fe ofynnir i'r rhai sydd am gyfleu ymateb i'r arolwg ai yn Gymraeg neu Saesneg yr hoffent wneud.

Wrth drefnu seminarau, cyrsiau hyfforddiant neu ddiwyddiadau tebyg yng Nghymru i'r cyhoedd, byddwn yn asesu'r angen am eu darparu yn Gymraeg.

Bydd unrhyw arddangosiadau clywedol, teithiau awdio neu gyfryngau rhyngweithiol a baratown i'r cyhoedd Cymreig yn ddwyieithog.

## **Ein hwyneb cyhoeddus**

### **Ymgyrchoedd cyhoeddusrwydd, arddangosfeydd a hysbysebu**

Bydd pob deunydd cyhoeddusrwydd, gwybodaeth gyhoeddus a deunydd arddangosfa a hysbysebu a fwriedir i'r cyhoedd Cymreig yn cael ei gynhyrchu'n ddwyieithog neu mewn fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân. Os oes rhaid cyhoeddi'r fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân, bydd y ddau fersiwn yn gydradd o ran maint, amlygrwydd ac ansawdd – a bydd y ddau fersiwn ar gael yr un pryd a'r un mor hygyrch

Bydd unrhyw hysbysebion a roir mewn papurau newydd Saesneg (neu gyfryngau tebyg) a gaiff eu dosbarthu'n bennaf neu'n gyfan gwbl yng Nghymru yn ddwyieithog, neu byddant yn ymddangos yn fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân (a hynny yr un pryd ac yn gydradd o ran maint, amlygrwydd ac ansawdd).

Bydd hysbysebion teledu, sinema a radio sy'n targedu Cymru'n benodol yn cael eu trefnu yn Gymraeg a Saesneg. Yn Gymraeg y bydd ymgyrchoedd teledu sy'n ymddangos ar S4C yn ystod oriau darlledu Cymraeg. Yn Gymraeg y bydd ymgyrchoedd a gaiff eu darlledu ar Radio Cymru neu yn ystod rhaglenni Cymraeg ar orsafoedd radio masnachol. Ein harfer gyffredin fydd osgoi defnyddio is-deitlau Cymraeg neu drosleisio hysbysebion i'r Gymraeg.

Bydd llinellau ymateb ffôn a ffyrdd eraill o ymateb i ymgyrchoedd sy'n targedu Cymru yn ddwyieithog neu'n cynnwys gwasanaeth ymateb Cymraeg ar wahân.

Lle defnyddir amrywiaeth o wahanol gyfryngau mewn ymgyrch arbennig, mae BIS yn cadw'r hawl i fanteisio ar y cyfrwng neu'r cyfryngau a wêl yn fwyaf cost-effeithiol at ddibenion cyfleu neges yr ymgyrch yn Gymraeg i'r cyhoedd Cymraeg.

### **Cyhoeddiadau**

Trefnir i gyhoeddiadau sydd o ddiddordeb i'r cyhoedd yn gyffredinol fod ar gael yn Gymraeg. Trefnir hefyd i unrhyw beth sy'n ymwneud â Chymru neu ran o Gymru fod ar gael yn Gymraeg. Bydd hyn yn cynnwys:

- Dogfennau polisi ac ymgynghori yn ymwneud â materion sydd o ddiddordeb i'r cyhoedd yn gyffredinol
- Pamffledi a thafleuni'n targedu'r cyhoedd yn gyffredinol
- Ffurflenni a deunydd eglurhaol wedi'u hanelu at y cyhoedd yn gyffredinol
- Cylchlythyrau a llythyrau safonol

Lle cynhyrchwn ddeunydd i'r cyhoedd yn ddwyieithog, caiff y fersiynau Cymraeg a Saesneg eu cyhoeddi gyda'i gilydd fel arfer a byddant yn gyffelyb. Weithiau, fe gâi'r ddau fersiwn eu cynnwys yn yr un ddogfen lle byddai hynny'n briodol. Ni fyddid yn eu cynnwys mewn un ddogfen lle golygai hynny fod y ddogfen yn rhy hir neu'n rhy swmpus neu am resymau amgylcheddol ymarferol. Bydd pob fersiwn yn nodi'n glir fod y deunydd ar gael yn yr iaith arall a byddant yr un mor hygyrch.

Os na fydd ar gael yn rhad ac am ddim, ni fydd pris dogfen ddwyieithog yn uwch na phris cyhoeddiad un iaith – a bydd pris fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân yr un fath.

Bydd yr uchod hefyd yn gymwys i ddeunydd y trefnir iddo fod ar gael yn electronig ar ein gwefan, ar ddisg CD-ROM neu fel arall.

## **Gwefannau**

Bydd ein gwefan yn cynnwys tudalennau yn Gymraeg a Saesneg fel ei gilydd.

Cynhwyswn fersiynau Cymraeg o rai tudalennau rhyngweithiol ar ein gwefannau lle bo hynny'n briodol.

Wrth ddylunio gwefannau newydd, neu ailddatblygu'n gwefan bresennol, fe gymerwn i ystyriaeth ganllawiau Bwrdd yr Iaith Gymraeg ar ddylunwaith gwefannau.

Lle bo hynny'n bosib, byddwn yn trefnu i gyhoeddiadau sydd ar gael yn Gymraeg a Saesneg gael eu cynnwys ar ein gwefan yr un pryd.

Byddwn yn paratoi rhaglen, i'w chymeradwyo gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg, yn gosod sut y byddwn yn cynyddu cynnwys Cymraeg ein gwefan gydag amser.

## **Ffurflenni a deunydd eglurhaol cysylltiedig**

Ein harfer gyffredin fydd sicrhau bod pob ffurflen a deunydd eglurhaol cysylltiedig sydd at ddefnydd y cyhoedd yng Nghymru yn gwbl ddwyieithog, a'r fersiynau Cymraeg a Saesneg gyda'i gilydd mewn un ddogfen. Bydd hyn yn cynnwys y ffurflenni rhyngweithiol a gaiff eu cyhoeddi ar ein gwefan. Os oes rhaid cyhoeddi'r fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân, bydd pob fersiwn yn nodi'n glir fod y deunydd ar gael yn yr iaith arall.

Byddwn yn gyrru ffurflenni dwyieithog i'r cyhoedd lle bo modd, oni bai ein bod yn gwybod y byddai'n well gan y derbynwyr gael yr wybodaeth yn Gymraeg neu Saesneg yn unig. Lle bydd cyrff eraill yn dosbarthu ffurflenni ar ein rhan, fe sicrhawn eu bod yn gwneud felly yn unol â'r uchod.

## **Hunaniaeth gorfforaethol**

Cynhyrchir penawdau llythyr Cymraeg ar gyfer gohebiaeth Gymraeg.

Lle cynhyrchir dogfenni'n ddwyieithog neu yn Gymraeg, bydd enw BIS yn aros er mwyn sicrhau hunaniaeth frand yr Adran ond bydd yn cynnwys disgrifydd yn Gymraeg.

## **Hysbysiadau swyddogol, hysbysiadau cyhoeddus a hysbysiadau recriwtio staff**

Bydd bydd unrhyw hysbysiadau swyddogol, hysbysiadau cyhoeddus a hysbysiadau recriwtio staff a roir mewn papurau newydd Saesneg (neu gyfryngau tebyg) a gaiff eu dosbarthu'n bennaf neu'n gyfan gwbl yng Nghymru yn ddwyieithog, neu byddant yn

ymddangos yn fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân. Yn Gymraeg y bydd hysbysiadau mewn cyhoeddiadau Cymraeg.

Bydd y fersiynau Cymraeg a Saesneg yn gydradd o ran diwyg, maint, ansawdd ac amlygrwydd - p'un ai fel un fersiwn dwyieithog neu fel hysbysiadau Cymraeg a Saesneg ar wahân y cânt eu cynhyrchu.

Yn y cyfryngau Saesneg, gall swyddi lle mae'r gallu i siarad Cymraeg yn hanfodol gael eu hysbysebu yn Gymraeg, gyda disgrifiad byr yn Saesneg.

Gall hysbysiadau recriwtio a roir mewn cylchgronau Saesneg (a chyhoeddiadau eraill) a gaiff eu dosbarthu ledled y DU fod yn Saesneg, oni bai bod y swydd yn un lle mae'r gallu i siarad Cymraeg yn hanfodol – os felly, gall yr hysbysiad fod yn gwbl ddwyieithog neu yn Gymraeg gyda disgrifiad byr yn Saesneg.

Bydd unrhyw hysbysiadau swyddogol, hysbysiadau cyhoeddus neu hysbysiadau recriwtio staff a gaiff eu gosod rywle arall yng Nghymru yn ddwyieithog.

### **Hysbysiadau i'r Wasg a chysylltiadau â'r cyfryngau**

Caiff hysbysiadau i'r cyfryngau yng Nghymru eu rhyddhau yn Gymraeg a Saesneg lle mae'r terfynau amser yn caniatáu ac os byddai'r pwnc dan sylw yn effeithio ar y cyhoedd Cymreig.

## **Gweithredu'r Cynllun**

### **Staffio**

Nid yw BIS wedi'i seilio'n ffurfiol yng Nghymru, er bod rhan o'n hadran Adnoddau Dynol yno. Byddwn yn ceisio gwybodaeth am fedrau iaith staff presennol ac ymgeiswyr am swyddi lle mae'r swydd yn mynnu cyswllt agos â'r cyhoedd Cymraeg.

### **Recriwtio**

Ar gyfer unrhyw swyddi sy'n mynnu cyswllt eang a rheolaidd â'r cyhoedd yng Nghymru, byddwn yn ystyried a ddylai rhuglder yn Gymraeg fod yn fedr i'w ddymuno neu'n un hanfodol - ac fe nodir hyn yn y cymwysterau angenrheidiol a'r hysbysebion ar gyfer swyddi.

### **Hyfforddiant iaith**

Byddwn yn ystyried cefnogi a chyllido hyfforddiant i staff sydd, fel rhan o'u dyletswyddau, yn cael cyswllt eang a rheolaidd â'r cyhoedd yng Nghymru - ac sydd am ddysgu'r Gymraeg neu wella'u Cymraeg. Byddwn yn caniatáu i staff fynychu cyrsiau yn ystod eu gwaith.

### **Hyfforddiant galwedigaethol**

Lle bynnag y bo hynny'n ymarferol, byddwn yn darparu hyfforddiant galwedigaethol yn Gymraeg i feithrin gallu staff sydd, fel rhan o'u dyletswyddau, yn cael cyswllt eang a rheolaidd â'r cyhoedd yng Nghymru.

## **Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu**

Diwellir yr angen am gynnig gwybodaeth a gwasanaethau yn Gymraeg, a gweithredu yn unol â'r cynllun hwn, wrthi inni ddatblygu, dylunio a phrynu cynhyrchion a gwasanaethau technoleg gwybodaeth a thechnoleg.

Wrth ddatblygu neu gaffael systemau TGCh, fe gymerwn i ystyriaeth safonau TGCh y Bwrdd.

## **Gweithio mewn partneriaeth**

Pan fyddwn yn arweinydd strategol ac ariannol o fewn partneriaeth, byddwn yn sicrhau bod unrhyw agweddau ar wasanaeth cyhoeddus yn cydymffurfio â'r cynllun hwn, ac eithrio lle mae Adran Busnes, Arloesi a Sgiliau yn barod gan y partner sy'n gwireddu'r gwasanaeth. Yn yr amgylchiadau hynny, dylai'r gwasanaeth cyhoeddus gydymffurfio â chynllun y partner gwireddu.

Wrth inni ymuno â phartneriaeth gyda chorff arall sy'n arwain, bydd ein mewnbwn i'r bartneriaeth yn cydymffurfio â'r cynllun hwn a byddwn yn annog y partneriaid eraill i gydymffurfio, oni bai bod Adran Busnes, Arloesi a Sgiliau yn barod gan y corff arwain. Yn yr amgylchiadau hynny, byddwn yn annog y bartneriaeth i gydymffurfio â chynllun y corff arwain.

Pan fyddwn yn bartner mewn consortiwm, fe anogwn y consortiwm i gydymffurfio â'r cynllun hwn. Wrth weithredu yn enw'r consortiwm, byddwn yn gweithio yn unol â'r cynllun hwn. Lle gweithredwn mewn consortiwm gyda chyrff eraill sydd â'u cynlluniau iaith Gymraeg eu hunain, fe anogwn y consortiwm i lynu wrth un cynllun yn ei holl waith. Mae'r uchod yn cyfeirio'n unig at bartneriaethau sy'n ymwneud â gwasanaethau sydd ar gael i'r cyhoedd yng Nghymru.

## **Trefniadau mewnol**

Mae awdurdod, cefnogaeth a chymeradwyaeth lawn ein corff yn gefn i fesurau'r cynllun hwn.

Bydd rheolwyr yn gyfrifol am weithredu'r agweddau hynny ar y cynllun sy'n berthnasol i'w gwaith. Bydd Pennaeth yr Uned Hawliau Gwybodaeth yn cydgysylltu'r gwaith sydd angen i wireddu, monitro ac adolygu'r cynllun hwn.

Caiff cynllun gweithredu manwl ynglyn â sut y byddwn yn rhedeg y cynllun ei baratoi a'i ddiweddarau'n rheolaidd. Daw'r cynllun gweithredu i rym ar y dyddiad y daw'r cynllun i rym. Bydd y cynllun yn cynnwys targedau, terfynau amser ac adroddiad ar gynnydd o dan bob targed.

Trefnir cyhoeddusrwydd i'r cynllun ymhlith ein staff, ac ymhlith y cyhoedd yng Nghymru. Caiff ei gyhoeddi ar ein gwefan a bydd ar gael drwy gyflwyno cais i Linell Archebu Cyhoeddiadau BIS. Caiff gyhoeddusrwydd pellach hefyd drwy sôn amdano yn Adroddiad yr Adran a chaiff hysbysiad i'r Wasg ei ryddhau i roi gwybod i'r cyfryngau am y cynllun diwygiedig.

Caiff y canllawiau presennol a ddilynir gan ein staff eu diwygio i adlewyrchu'r mesurau sydd wedi'u cynnwys yn y cynllun hwn.

Trefnwn sesiynau cyfarwyddyd a hyfforddiant i staff yr effeithir yn sylweddol ar eu gwaith yn sgil diwygio'r cynllun. Bydd hyn yn cynyddu'u hymwybyddiaeth o'r cynllun hwn ac yn egluro sut y bydd yn effeithio ar eu gwaith beunyddiol.

Byddwn yn sicrhau na ddefnyddiwn ond cyfieithwyr neu gyfieithwyr-ar-y-pryd cymwysedig i helpu i wireddu'r cynllun hwn.

Ymgwymerir ag unrhyw fath o gyswllt â'r cyhoedd yng Nghymru nad yw'r cynllun hwn yn sôn amdano'n benodol, mewn ffordd sy'n gyson ag egwyddorion cyffredinol y cynllun.

## **Monitro**

Byddwn yn monitro'r cynnydd a wnawn o ran gwireddu'r cynllun hwn yn ôl y targedau sydd wedi'u nodi yn y cynllun gweithredu sydd ynghlwm wrtho. Byddwn yn anfon adroddiadau monitro i Fwrdd yr Iaith Gymraeg, wrth iddynt eu mynnu, yn amlinellu'r cynnydd a wnaed o ran gwireddu'r cynllun hwn.

## **Adolygu a diwygio'r Cynllun**

Byddwn yn adolygu'r cynllun hwn o fewn pedair blynedd iddo ddod i rym.

Gellir adolygu neu ddiwygio'r cynllun hwn unrhyw adeg oherwydd newidiadau i'n swyddogaethau, neu i'r amgylchiadau lle cydiwn yn y swyddogaethau hynny, neu am unrhyw reswm arall. Ni wneir newidiadau i'r cynllun hwn heb gymeradwyaeth Bwrdd yr Iaith Gymraeg.

## **Cwynion ac awgrymiadau ar gyfer gwella**

Dylid cyfeirio cwynion am y cynllun hwn, neu awgrymiadau ar gyfer gwella, at yr uwch-aelod staff sy'n gyfrifol am y cynllun, yn y cyfeiriad canlynol:

Dr David Welch  
Uned Hawliau Gwybodaeth  
Adran Busnes a Menter  
1 Victoria Street  
Llundain SW1H 0ET  
020 7215 0029

neu drwy e-bostio: [david.welch@BIS.gsi.gov.uk](mailto:david.welch@BIS.gsi.gov.uk)

Byddwn yn cydweithredu â'r Bwrdd i ddatrys unrhyw gwynion – ac yn ystod unrhyw ymchwilio a drefnir o dan Adran 17 o Ddeddf yr Iaith Gymraeg.

## Atodiad A – Y prif dargedau ar gyfer gwireddu'r cynllun

Targed	Gweithredu	Dyddiad cwblhau
<b>Polisiau, mentrau a gwasanaethau</b>		
Polisiau, mentrau a gwasanaethau i fod yn gyson â'r cynllun	Cynnwys mewn canllawiau/mentrau ymwybyddiaeth cyffredinol	<b>Awst 2009</b>
Bydd deddfwriaeth BIS yn cefnogi defnyddio'r Gymraeg.	Atgoffa'r Gangen Seneddol. Trefniadau i'w sefydlu i dynnu sylw timau Mesur	
<b>Gohebiaeth</b>		
Ymrwymadau o ran trin gohebiaeth sy'n dod i law yn Gymraeg ac o ran trin eitemau i'w hamgáu	Cynnwys mewn canllawiau/mentrau ymwybyddiaeth cyffredinol Atgoffa MCU (Uned Gohebiaeth Weinidogol)	<b>Mai 2009</b>
Llythyrau penderfyniad a fwriedir i gyfleu polisi i gynulleidfa eang: ystyried p'un a ddylid eu trin fel cyhoeddiad	Cynnwys mewn canllawiau/mentrau ymwybyddiaeth cyffredinol  Rhoi gwybod i Wasanaethau Cyfreithiol	<b>Mai 2009</b>
<b>Cyfarfodydd cyhoeddus</b>		
Cynnig cyfleusterau cyfieithu-ar-y-pryd mewn cyfarfodydd cyhoeddus	Cynnwys mewn canllawiau/mentrau ymwybyddiaeth cyffredinol Atgoffa Gwasanaethau Cyfieithu Atgoffa Gwasanaethau Cyfreithiol	<b>Mai 2009</b>
<b>Ymgyrchoedd cyhoeddusrwydd, arddangosfeydd a hysbysebu</b>		

Ymrwymiadau o ran cyhoeddusrwydd, gwybodaeth gyhoeddus a deunydd arddangosfa a hysbysebu wedi'u hanelu at y cyhoedd Cymreig, teledu (gan gynnwys hysbysebion sinema a radio'n targedu Cymru)	Atgoffa: Cyfathrebu  Penaethiaid y cyfarwyddiaethau perthnasol, e.e. CCP, ER	<b>Mai 2009</b>
Llinellau ymateb ffôn etc a ffyrdd eraill o ymateb i ymgyrchoedd yn targedu Cymru i fod yn ddwyieithog neu gynnwys gwasanaeth ymateb Cymraeg ar wahân	Atgoffa: Cyfathrebu Pennaeth Cyfathrebu CCP Pennaeth Cyfathrebu ER Rheolwr contractau TGCh	<b>Mehfin 2009</b>
<b>Cyhoeddiadau</b>		
Ymrwymiadau'n gysylltiedig â chyhoeddiadau o ddiddordeb i'r cyhoedd yn gyffredinol neu'n ymwneud â Chymru neu ran o Gymru	Cynnwys mewn canllawiau/mentrau ymwybyddiaeth cyffredinol  Atgoffa: Cyfathrebu  Penaethiaid CCP, ER etc	<b>Mai 2009</b>
<b>Hyfforddiant iaith</b>		
Ystyried cefnogi a chyllido hyfforddiant i staff sydd, fel rhan o'u dyletswyddau, â chyswllt eang a rheolaidd â'r cyhoedd yng Nghymru		<b>Awst 2009</b>
<b>Gweithio mewn partneriaeth</b>		
Ymrwymiadau wrth weithio mewn partneriaeth ag eraill	Cynnwys mewn canllawiau/mentrau ymwybyddiaeth cyffredinol	<b>Mai 2009</b>
<b>Hybu'r Cynllun yn Fewnol</b>		
Diweddarau tudalennau Cymraeg Mewnwyd IRU		Mai 2009

Diweddarau tudalennau Cymraeg yr Uned Gyhoeddiadau ar BISnet		Mai 2009
Rhoi tudalen Cymraeg ar adran y Gwasanaethau Cyfreithiol ar BISnet		Mai 2009
Cynnwys cyfeiriadau at hyn ar safle Llunio Polisi BISnet		Mehefin 2009
Diweddarau'r cyfeiriadau at y Gymraeg ar yr adran ymgynghori ar Fewnrwyd BISnet		Mehefin 2009
Creu hysbysiad ar y Bwrdd Hysbysiadau Electronig		Mehefin 2009
Tynnu sylw rhwydwaith GIM (Grŵp y Rheolwyr Gwybodaeth)		Mehefin 2009
Erthygl i lythyr newyddion GIM		Mehefin 2009
Diweddarau'r canllawiau i benaethiaid unedau rheoli		Mai 2009
Diweddarau'r llawlyfr caffael		Mehefin 2009
Erthygl newyddion BIS		Mehefin 2009